OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 2190 (Cy.174)

IECHYD PLANHIGION, CYMRU

Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol (Cymru) (Diwygio) 2007

Wedi'u gwneud - -	*25 Gorffennaf 2007*
Wedi'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*27 Gorffennaf 2007*
Yn dod i rym - -	*28 Awst 2007*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Maent yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn o dan y pwerau a roddwyd gan yr adran honno:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol (Cymru) (Diwygio) 2007.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 28 Awst 2007 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), ym mharagraff (1), yn lle'r diffiniad o "Directive 92/33/EEC" rhodder—

""Directive 92/33/EEC" means Council Directive 92/33/EEC on the marketing of vegetable propagating and planting material other than seed;"(**4**).

(3) Yn rheoliad 3 (deunyddiau planhigion y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt)—

(a) ym mharagraff (1)(a), yn lle "Schedule 1" rhodder "Annex II to Directive 92/33/EEC";

(b) ym mharagraff (1)(b), yn lle "Schedule 1" rhodder "that Annex".

(**1**) O.S. 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59(1) a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn i'w harfer gan Weinidogion Cymru.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 1995/2652.
(**4**) OJ Rhif L 157, 10.6.1992, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2006/124/EC, OJ Rhif L 339, 6.12.2006, t. 12.